**Gweithdrefn Cyn Llawdriniaeth: Llawdriniaeth ar y Croen**

**Llawdriniaeth dan Anesthetig Lleol**

**Dermatoleg**

---

Argymhellwyd ichi gael llawdriniaeth ar y croen naill ai i drin yr ardal (e.e. tynnu man geni) neu ar gyfer diagnosis (biopsi).
Beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu

- Bydd y fân lawdriniaeth yn digwydd yn ein hystafelloedd triniaethau Dermatoleg.  Byddwch yn mynd adre yr un diwrnod.  Bydd angen ichi gael lifft adref.

- Gwneir yr ardal yn ddideimlad gydag anesthetig lleol.  Byddwch ar ddihun.

- Byddwn yn tynnu ychydig o'ch croen.  Efallai y caiff y clwyf ei bwytho.

- Mae'r risgiau yn ymwneud ag unrhyw driniaeth ar y croen yn rhai bach yn gyffredinol ac maent yn cynnwys gwaedu, cleisio, heintio, poen, creithio ac yn anaml iawn, niwed i'r nerfau.

**Cyn eich apwyntiad**

- Gallwch yfed a bwyta fel arfer cyn y driniaeth.

- Cymerwch eich meddyginiaethau arferol oni bai y dywedwyd wrthych fel arall.

- Rhowch wybod inni os ydych yn cymryd warfarin, apixaban neu feddyginiaethau eraill sy'n teneuo'r gwaed.

- Rhowch wybod inni os oes gennych reoliadur y galon, diffibriliwr y galon, mewnblaniad yn y cochlea neu unrhyw ddyfais arall sydd wedi ei fewnblannu.

- Peidiwch â gwisgo tlysau na cholur.

- Gwisgwch ddillad y bydd yn hawdd eu tynnu yn ôl yr angen.

## Yn ystod eich apwyntiad

- Bydd y llawfeddyg yn egluro’r driniaeth, gwneud yn siŵr eich bod yn deall a rhoi amser ichi ofyn cwestiynau cyn llofnodi'r ffurflen gydsynio.
- Gall fod angen ichi dynnu dillad i ddatgelu'r ardal berthnasol.
- Bydd y llawfeddyg yn rhoi’r pigiadau o anesthetig lleol a gwirio bod yr ardal yn ddideimlad cyn dechrau'r driniaeth.
- Ar ddiwedd y driniaeth rhoddir rhwymyn dros y clwyf y bydd angen ei gadw'n sych am 2 ddiwrnod o leiaf, weithiau hyd at wythnos.

## Ar ôl eich llawdriniaeth

- Cewch wybodaeth ysgrifenedig ar sut i ofalu am eich clwyf.
- Bydd angen tynnu’r pwythau ar ôl 7-10 diwrnod wedi’ch triniaeth.
- Gallwch gael apwyntiad yn yr Adran Dermatoleg ar gyfer tynnu’r pwythau neu newid eich gorchudd neu gall fod angen ichi drefnu’r rhain gyda’r nyrs yn eich meddygfa. Penderfynir ar hyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth.
- Gall fod angen rhoi rhwymyn ar ôl rhai triniaethau (e.e. grafftiadau croen) am sawl wythnos.
- Gall yr ardal fod yn boenus wrth i’r anesthetig lleol gilio.
  Rydym yn argymell ichi brynu paracetamol neu co-codamol dos isel i'w cymryd yn ôl yr angen.
- Mae’n rhaid ichi osgoi gweithgareddau egnïol am wythnos o leiaf wedi’r llawdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys ymarfer corff, chwaraeon, gwaith tŷ trwm, codi, neu arddio.
- Byddwn fel arfer yn gofyn ichi brynu pot newydd o Vaseline i'w ddefnyddio ar y graith.

Os oes unrhyw gwestiynau eraill gennych ynglŷn â’ch apwyntiad, ffoniwch y rhif canlynol 01633 - 234646

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English”.**